

# Tadau a theuluoedd

Canllaw i helpu ymarferwyr rhianta i gynnwys tadau a gweithio gyda nhw

## Rhagair

Canllaw yw hwn i ymarferwyr rhianta i gynnig awgrymiadau a chefnogaeth wrth ymgysylltu a gweithio gyda thadau.

Cychwynnodd y ddogfen hon fel papur ymchwil ar gyfer Parenting UK, wedi'i ysgrifennu gan Adrienne Burgess o'r Fatherhood Institute a'i ariannu gan beth oedd bryd hynny'n Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd.

Mae'r diweddariad hwn yn 2014 wedi cael ei gynhyrchu fel dogfen ddysgu ar gyfer Dyfodol Gwell, rhaglen ar draws y DU wedi ei hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr gyda'r nod o wella bywydau plant sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd sydd ag anghenion lluosog a chymhleth.

Mae'r papur a ddiweddarwyd yn cynnwys deunydd newydd sy'n adlewyrchu ymchwil ddiweddar ac yn anelu at gefnogi'r 26 prosiect sy'n rhan o Ddyfodol Gwell a'u gwaith gyda thadau. Gobeithiwn y bydd darparwyr gwasanaethau eraill y tu allan i'r prosiect hefyd yn gweld gwerth yn yr wybodaeth a'r awgrymiadau sydd yn y papur. Caiff y papur ei ddosbarthu i'r prosiectau Dyfodol Gwell ac i aelodau o Parenting UK.

### Prif argymhellion:

1. Sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi'n drylwyr yn elfennau gweithio gyda thadau. Mae polisi a deddfwriaeth yn datgan bod rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd 'feddl am dadau'. Mae addysgu rhianta'n 'glynu' ac mae'n gwasanaethu'r plentyn yn well os yw tadau wedi ymgysylltu yn ogystal â mamau.

### Nodyn ar derminoleg:

Drwy gydol y papur hwn, mae'r term 'tad' yn cael ei ddefnyddio i olygu tadau biolegol (boed yn byw gyda'r plentyn neu beidio) a dynion eraill sy'n chwarae rhan dadol bwysig ym mywydau plant.

2. Gwneud y 'Prawf Tadau' i asesu pa mor gyfeillgar i dadau yw eich ymarfer.

3. Annog adeiladau a brandio cyfeillgar i dadau sy'n apelio at y ddau ryw. Cyfeirio pob gohebiaeth at 'mam a dad' yn hytrach na 'rhiant', a chynnig gwasanaethau sy'n gallu bod o fudd i bob rhiant.

4. Ymgorffori gwaith tadau o fewn gwasanaethau prif-ffrwd. Er y gallai cael aelod penodol o staff i ddelio'n gyda thadau fod yn bwysig, ni ddylai'r gwaith ei hun gael ei ymleiddio.

5. Gosod o'r neilltu ragdybiaethau a stereoteipiau. Nid yw oes llai o duedd gan ddynion na menywod i feddu ar sgiliau rhianta na menywod ond mae'n haws cael at y sgiliau hyn pan fydd prosiectau wedi eu teilwra tuag at sgiliau a diddordebau penodol dynion.

6. Gwneud ymdrech benodol i ganfod tadau ac ymgysylltu â nhw. Gellir cyrraedd tadau drwy'r mamau yn aml, neu drwy fynd allan i'r gymuned a thargedu gwasanaethau eraill y mae tadau'n eu defnyddio.

7. Dangos parch i'r tadau sydd yn dod at eich gwasanaethau. Gall rhoi gormod o sylw arbennig iddynt fod mor niweidiol â'u hanwybyddu a'u hynysu.

8. Bod â dealltwriaeth gyfredol o rianta ar y cyd a rôl y tad dibreswyl. Gall lefelau cyfranogi fod yn amrywiol, felly ceisiwch ddeall natur y berthynas bresennol fel rhiant a gweithio o'r man cychwyn hwn.

## Cyflwyniad

Mae mentrau ar gyfer gweithio gyda thadau yn aml yn cael eu modelu ar prosiectau sydd wedi eu dylunio ar gyfer mamau, yn cael eu hysbysebu mewn llefydd lle nad yw tadau'n mynd, a'u cynnal mewn adeiladau gwaith cymdeithasol lle mae dynion yn sefyll allan fel estroniaid. Pan

sylweddolodd Canolfan Deuluoedd Pen Green yn Corby pa mor ddiflas oedd eu hadeiladau i ddynion, fe aethant ati i'w gwneud yn gyfeillgar i dadau, ymysg pethau eraill, gan roi lluniau o ddynion gyda phlant ar y waliau. Yn bwysicaf oll, eu man cychwyn oedd nid 'trwsio tadau' ond 'adlewyrchu pwysigrwydd tadau' a'u cynnwys yn y ganolfan, ac er bod hyn wedi arwain at grŵp tadau llwyddiannus, fe arweiniodd hefyd at fentrau eraill yn cynnwys hyfforddiant penodol i staff.

Er bod grwpiau tadau'n gyfrwng i alluogi rhai tadau, mae ymchwil yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o dadau'n awyddus i fynychu gweithgareddau i ddynion yn unig (er y gallent eu mwynhau pe byddent yn mynd iddynt). Gall ceisio sefydlu grŵp tadau hefyd ddefnyddio llawer o amser staff heb fawr o ffrwyth, a gall ymyleiddio tadau, fel nad oes angen i'r gwasanaeth prif-ffrwd newid a dod yn gynhwysol i dadau.

Mae dyfeisio strategaethau i ymgysylltu â thadau yn dod yn eithaf pell i lawr y rhestr mewn gwirionedd. Mae angen cael llawer o bethau'n eglur i ddechrau, yn enwedig mewn lleoliadau (fel ysgolion) lle nad yw gwerth ymgysylltu â rhieni o'r naill ryw na'r llall yn cael ei dderbyn gan bawb.

### Astudiaeth achos 1

'Roedd y Pwyllgor Llywio eisiau i mi weithio gyda thadau, ac fe ges fy mygwth gan dad lleol. Fe ddwedodd y byddai'n fy siwio am ddim ond gweithio gyda mamau. Y broblem yw bod y prosiect yma'n seiliedig ar fodel o'r Unol Daleithiau lle mae mamau'n cyfarfod mewn un grŵp a'u plant, sydd yn eu harddegau, yn cwrdd mewn grŵp arall. Fe newidiais 'mam sengl' i 'riant sengl'. Wnaeth dim un dyn ffonio! Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor am dadau'r bobl ifanc roedden ni eisoes yn gweithio gyda nhw, ond fyddai hynny ddim yn bosibl. Prosiect ar gyfer rhieni sengl yw hwn.'

Yn seiliedig ar gyfweiliad gyda gweithiwr o Awstralia, Rhagfyr 2001

Ond hyd yn oed pan fydd ymgysylltu â mamau yn uchel ar yr agenda a lle mae ymarferwyr yn dweud ei bod hi'n bwysig gweithio gyda thadau hefyd, mae ymchwil wedi dangos eu bod yn aml yn methu â gwneud hynny. Nid yw hyn yn

syndod: nid yw perthynas agos rhwng plentyn a thad yn aml yn cael ei ystyried yn ganolog i les y plentyn.

## Cam 1 – Gweld yn glir pam mae tadau'n bwysig a beth maen nhw'n ei wneud yn barod

Mae tadau'n grewyr, yn roddwyr gofal, yn gysurwyr, yn gwmni, yn ddarparwyr, yn bartneriaid, yn amddiffynwyr, yn fodolau, yn arweinwyr, yn athrawon ac yn ffrindiau i chwarae.

Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at ddatblygiad eu plant drwy:

- eu tuedd i'w caru'n angerddol, a
- pharhau'n ffyddlon iddynt gydol eu hoes
- rhannu gweithgareddau a chyfathrebu gyda nhw
- yr amser, yr arian a'r sgiliau y maent yn eu cyfrannu i'r cartref
- y rhwydweithiau - symbolau (teulu, ffrindiau, cydweithwyr) sy'n gysylltiedig â nhw
- y gefnogaeth y maent yn ei darparu i famau
- cynrychioli'r model pwerus i'w plentyn, sef 'fy nhad'
- modelu gwrywod o fewn y cartref.

Mae tadau hefyd yn gallu cael effaith negyddol ar blant a mamau ac mae hyn yn rheswm pwysig iawn dros ymgysylltu â nhw. Ac mae tadau sydd ddim yn gweld eu plant neu ddim yn cefnogi mamau hefyd yn cael effaith ac yn aml gellir herio hyn.

### Gwnewch hyn:

- sefydlu systemau i gasglu enw a manylion cyswllt tadau fel mater o drefn, yn cynnwys tadau dibreswyl, pan fydd plant yn cael eu cofrestru
- mynd ati i geisio cyfarfod y ddau riant mewn ymweliadau cartref a chysylltiadau eraill gyda rhieni
- gwneud cydlynu cyfranogiad tadau yn ddyletswydd penodol i un aelod o staff, wedi'i hyfforddi'n dda - rheolwr os yn bosib

- disgwyl bod pob aelod staff yn barod/ gallu ymgysylltu â thadau: nodi hyn wrth recriwtio ac arolygu
- sicrhau bod pob aelod staff wedi'i hyfforddi i weithio gyda thadau a deall pam bod hyn yn bwysig
- esbonio, fel mater o drefn, i bob tad a mam sut bydd cyfranogiad y tad (yn cynnwys tadau dibreswyl) gyda'r gwasanaeth (ac yn y cartref) yn gwella canlyniadau ar gyfer y plentyn
- asesu anghenion a chryfderau tadau (fel y byddech gyda mamau), yn enwedig lle mae arwyddion y gallai cyfranogiad tad beri risg
- ceisio cefnogaeth i ddynion o'r fath i herio ymddygiad negyddol ac i annog newid ymddygiad
- wrth ddatblygu polisiâu ac ymarfer, gosod y plentyn yn y canol gan adnabod efallai na fydd anghenion/safbwyntiau mamau a phlant bob amser yr un fath

### Pam gweithio gyda thadau?

- mae polisi a deddfwriaeth bellach yn galw ar ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd i 'feddwl am dadau' (am restr lawn ewch i [www.fatherhoodinstitute.org](http://www.fatherhoodinstitute.org))
- mae addysg rhieni'n fwy tebygol o 'lynu' pan fydd yn cael ei gyflwyno i'r ddau riant yn bersonol, yn hytrach na disgwyl i un drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i'r llall.
- gall rhaglenni sydd ond yn anelu at famau siglo'r cydbwysedd domestig; gall hyd yn oed weithiau osod menywod neu plant mewn perygl
- os yw'r berthynas gyda thad yn un problematig, mae gweithio gyda'r fam neu'r plentyn yn unig yn annheg i'r plentyn gan nad yw'n mynd i'r afael â'r broblem go iawn
- os nad yw tad yn broblematig, yna mae methu â gweithio gydag ef yn annheg i'r plentyn drwy beidio â thynnu ar adnodd potensial i'r plentyn dan sylw.

### Beth mae tadau'n ei wneud

Efallai bydd rhai ymarferwyr o'r farn bod tadau'n treulio llai o amser gyda'u plant na mamau, a'u bod yn llai ynghlwm wrth fywydau eu plant, yn emosiynol ac yn ymarferol. Er bod peth gwir yn hyn, mae ymchwil ddiweddar wedi caniatáu i ni fynd yn ddyfnach a chanfod rhai o'r rhesymau gwaelodol.

Yn ôl papur ymchwil gan Modern Fatherhood (Poole et al, 2013a) sy'n edrych ar yr amser mae rhieni'n ei dreulio gyda'u plant ar weithgareddau arferol, o weithgareddau hamdden fel picnic yn y parc neu daith i'r sinema, i ddigwyddiadau syml bob dydd fel eistedd i lawr am bryd o fwyd gyda'i gilydd, mae cysylltiad pwysig rhwng oriau gwaith ac argaeledd amser. Yn syml, mae gan rieni sy'n gweithio llawn amser lai o oriau ar gael i'w rhoi i'w plant ac yn ôl ystadegau cyfredol, mae tadau'n fwy tebygol o weithio llawn amser.

Mae'r ymchwil yn dangos fod cefnogaeth partner hefyd yn ffactor allweddol. Mamau sy'n byw gyda phartner yw'r rhieni sy'n fwyaf tebygol o rannu gweithgareddau hamdden rheolaidd gyda'u plant ond dim ond ychydig y tu ôl mae tadau mewn sefyllfa debyg. Ni ddylid tybio'n awtomatig bod tadau wedi dewis llai o gyfranogiad. Os yw hi'n ymddangos bod anghydbwysedd yn y gofal rhwng mam a thad, gall adolygu eu horiau gwaith ac effaith hyn fod yn gymorth i ddatgelu strategaethau ar gyfer gwella perthynas rhieni.

Yn yr un astudiaeth, gofynnwyd i rieni pa mor aml yr oedden nhw'n siarad gyda'u plant am bynciau pwysig a hefyd pa mor aml yr oedden nhw'n dadlau gyda'u plant. Ar yr wyneb, mae'n ymddangos fod mamau'n siarad yn amlach gyda'u plant am bethau sy'n bwysig iddyn nhw, ond mae tadau'n adrodd am lai o ddadlau. Gallai un dehongliad o hyn awgrymu fod y tad yn osgoi dadlau drwy beidio cael sgysiau ystyrllon. Ond ystyriwch, fodd bynnag, arwyddocâd rôl cadw heddwch y gallai'r tad fod yn ei gymryd. Yn hytrach na mynd i'r afael â diffyg sgiliau cyfathrebu ymddangosiadol, chwiliwch am

### Astudiaeth achos 2

'Rydw i wedi bod yn gweithio gyda dau dad sydd ar orchmynion rhianta ac a ddangosodd wrthwynebiad eithafol i gymryd rhan, gan fygwth amharu ar unrhyw grŵp lle bydden nhw'n cael eu gosod. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth un i un, cwblhaodd y ddau ohonyn nhw eu cwrs deuddeg wythnos, a nododd y ddau

Steve Catchpole, Gweithiwr Tadau,  
Addysg  
Gymunedol Suffolk

fwriadau cadarnhaol yr ymddygiad a defnyddiwch hyn fel man cychwyn ar gyfer gwelliannau.

Ystyriwch unwaith eto y cysylltiad rhwng oriau gwaith ac amser yn y cartref. Mae rhai tadau'n syml yn cael llai o gyfleon i siarad yn agored gyda'u plant, gan eu bod llai ar gael pan fydd mater yn codi. Dychmygwch y darlun cyfarwydd o dad yn cyrraedd adref o'r gwaith a thawelu cweryl a ddatblygodd rhwng mam a phlentyn yn ystod y dydd. Gall helpu rhieni i ddeall sut a pham mae'r olygfa hon yn digwydd fod yn gymorth i fynd i'r afael ag anawsterau yn y berthynas rhwng mam a thad sydd, cyn hyn, ond wedi gweld y senario o'u safbwynt eu hunain.

Rhywbeth pwysig i'w ddysgu o hyn i gyd yw i edrych y tu hwnt i ragdybiaethau ac yn ddyfnach nag ystadegau. Ystyriwch yr ymateb i'r ffaith foel mai'r demograffig rhiant lleiaf tebygol o gwtsio eu plant yn rheolaidd yw unig dadau gyda phlant yn byw gyda nhw. Gellid maddau i rywun am ddod i'r casgliad fod tadau'n llai serchog, llai cyffyrddol na'u menywod cyfatebol. Mae edrych yn ddyfnach at ymchwil gafodd ei gwneud gan Poole et al, fodd bynnag, yn dangos fod cwtsio'n digwydd yn llai aml wrth i blant fynd yn hŷn a bod unig dadau preswyl yn fwy tebygol o fod â phlant hŷn. Mae amgylchiadau felly, yn hytrach na rhyw, yn chwarae rhan allweddol wrth ffurfio'r stereoteip hwn, ac yn rhoi man cychwyn amgen arall ar gyfer unrhyw waith cefnogi.

## Cam 2 – Datod stereoteipiau a rhagdybiaethau

Ar lefel ddofn, mae llawer ohonom yn teimlo fod cariad tadau tuag at eu plant yn amodol, a chariad mamau yn ddiamod, ond mewn gwirionedd mae'n llawer mwy cymhleth na hynny. Ond oherwydd y gred hon byddai gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod agwedd negyddol mam tuag at ei phlentyn fel blinder, rhwystredigaeth ac euogrwydd, gan weithio'n amyneddgar tuag at y cariad a'r consyrn gwaelodol, yn derbyn agwedd negyddol tad fel y gwir, ac yn stopio'r fan honno.

Mae bod yn fam yn cael ei ystyried yn arferol fel symbylydd tuag at presenoldeb menywod mewn rhaglenni detocs, addysg bellach at ati, mae bod yn dad fel symbylydd potensial ar gyfer datblygiad dynion fel arfer yn cael ei anwybyddu.

Sylwodd un gweithiwr fod pob dyn oedd wedi cwblhau rhaglen ar drais domestig yn

### Astudiaeth achos 3

Mae gan y prosiect Families Moving Forward ethos o ymgysylltu gyda thadau, llys-dadau a gofalwyr gwrywaidd eraill. Allan o'r 139 teulu sydd ar gronfa ddata'r prosiect, mae 56 tad neu ofalwr gwrywaidd wedi cofrestru.

Gan ddefnyddio'r 'model cyllideb teulu unigol' gallant deilwra cefnogaeth i gwrdd ag anghenion gofalwyr gwrywaidd. Cafodd un tad gefnogaeth ganddynt drwy ariannu cwrs hyfforddi pêl-droed, gan ddarparu llwybr at gyflogaeth fydd o fudd i'r teulu cyfan. Cafodd tad arall, oedd yn brwydro gyda iechyd meddwl ac anhwylder gorfodaeth obsesiynol, wedi derbyn cefnogaeth ychwanegol gan liniaru ei ymddygiad obsesiynol, gan wella perthnasoedd teuluol.

Families Moving Forward

llwyddiannus yn dad, er nad oedd y trefnwyr wedi sylwi ar hyn nac wedi adeiladu arno.

Mae astudiaethau wedi dangos fod tadau'n gallu cael effaith ar fywydau eu plant sy'n debyg o ran ei effaith, ond yn wahanol o ran steil, i'r effaith sy'n cael ei wneud gan famau (Adesso, a Lipson 1981). Gan wybod hyn, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n adlewyrchu dylanwad gwirioneddol tadau yn eu gwaith. Dylid sylweddoli pŵer dylanwad rhieni ar y cyd, ac effaith gadarnhaol ail riant gyda sgiliau i symud ymlaen lle bu i'r riant arall adael pethau.

### Beth all tadau ei wneud?

- mae'r rhan fwyaf o dadau'n dweud mai bod yn dad yw profiad emosiynol dyfnaf eu bywyd
- nid yw mamau'n arbenigwyr naturiol: o gael eu gadael yn gofalu am fabanod neu blant, mae dynion a menywod yn datblygu sgiliau ar yr un raddfa
- mae dynion yr un mor sensitif ac ymatebol i fabanod ag yw menywod
- mae mamau a thadau'n rhoi'r un faint o gariad i'w babanod
- mae tadau'n aml yn mynegi agosatrwydd drwy weithgareddau a rennir
- mae llawer o dadau dibreswyl yn cynnig cartref amgen pan fo'r angen yn codi
- mae tadau modern yn gyfrifol am o gwmpas wyth gwaith yn fwy o ofal plant nag oedd eu tadau eu hunain (O'Brien, 2004) (Ffynhonnell: What good are dads?, 2001)

Cyn meddwl am ddynion fel tadau, mae angen meddwl am dadau fel dynion.

Canfu Dr Deborah Ghate fod prosiectau oedd yn cyfeirio eu hymdrechion at 'rieni' ac yn anwybyddu materion rhyw yn cael y llwyddiant isaf wrth ymgysylltu â thadau. Roedd prosiectau oedd yn canolbwyntio'n ymwybodol ar y tebygrwydd ym mhotensial menywod a dynion i

### Peidiwch â ...

- meddwl y byddwch yn cyrraedd tadau drwy wahodd 'rhieni': mae pawb yn tueddu i glywed 'rhieni' i olygu 'mamau'. Dylai gwahoddiadau gael eu cyfeirio'n unigol at y ddau riant neu at 'mam a dad' er mwyn ei gwneud hi'n glir fod tadau'n cael eu cynnwys
- tybio nad oes gan dad ddiddordeb pan na fydd yn mynychu. Ystyriwch a yw'r cwrs neu'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar amser pan y gall ddod yno ac a yw'r arweinydd yn un y bydd yn teimlo'n gysurus yn ei gylch. Ydy'r tad yn aros adref i warchod? Ydy'r teulu wedi trafod a ddylai'r tad fynychu? Ydy'r tad hyd yn oed yn gwybod fod y digwyddiad yn cael ei gynnal?
- disgwyl i dadau deimlo'n gartrefol mewn adeiladau sydd wedi eu dylunio i gwrdd ag anghenion mamau neu blant; ewch i'r afael â'r amgylchedd neu feddwl am leoliadau eraill ar gyfer rhai gwasanaethau.
- cymryd yn ganiataol fod pob tad yr un fath: bydd gan dadau iau/hyn wahanol faterion, fel gyda thadau/llys-dadau, tadau preswyl dibreswyl, unig dadau, sy'n gweithio/rhai di waith, tadau mewn teuluoedd sy'n ymraffael ag anabled, a thadau o wahanol grwpiau cymdeithasol a diwylliannol.

fod yn rhieni cariadus yn gwneud yn well.

Ond cafwyd y canlyniadau gorau gan brosiectau oedd yn cydnabod fod profiadau, diddordebau, agweddau a disgwyliadau dynion yn aml yn wahanol, gan ddyfeisio strategaethau arbennig ar eu cyfer (Ghate, 2000), er nad oedd hyn o anghenraid yn golygu gweithio gyda'r tadau mewn gwasanaethau ar wahân.

Nid yw sefydliad sy'n honni ei fod yn gweithio gyda thadau am fod ei bolisiau'n dweud 'rydyn ni'n gweithio gyda rhieni' ond heb fod â strategaethau bwriadol, wedi'u cefnogi gan bolisiau, i ymgysylltu a rhyngweithio gyda thadau,

mewn gwirionedd yn 'gweithio gyda thadau'. Ar yr un pryd, mae angen i weithwyr proffesiynol mai nid ymateb dynion i gael eu trin yn wahanol yw'r hyn a welant fel 'anghenion neu ymddygiad gwahanol dynion'. Fe ffilmiodd Canolfan Green Pen staff yn cyfarch rhieni, a chanfod eu bod yn sgwrsio'n hirach ac yn fanylach gyda mamau, yn gwneud llawer mwy o gyswllt llygad ac yn sefyll yn agosach atyn nhw.

Arweiniodd newid ymddygiad staff at newid ymddygiad y tadau, gydag 87% ohonyn nhw'n mynd ymlaen i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Ganolfan (Lloyd, 2001).

Mae'r dyddiau wedi newid ers i'r hen stereoteipiau gael eu sefydlu. Mae hyd yn oed tadau dibreswyl yn fwy o ran o fywyd eu plant nag oedd tadau ddeugain mlynedd yn ôl ac mae llawer hyd yn oed yn treulio amser sylweddol yn rhianta ar eu pen eu hunain (Hetherington a Kelly, 2002). Wrth weithio gyda thadau lle nad yw'n ymddangos fod tad yn bresennol, mae'n bosibl fod y tad yn byw gerllaw ac yn bresennoldeb cryf ym mywyd y plentyn.

Heb os, mae rhai tadau'n ymbellhau oddi wrth wasanaethau teuluoedd, ond mae ymarferwyr yn aml yn gadael i hyn ddigwydd, efallai'n teimlo'n fwy cysurus yn gweithio gyda mamau (Burgess, 2009).

## Cam 3 – Cefnogwch y gwaith

Gan y bydd gweithio gyda thadau'n herio diwylliant y rhan fwyaf o sefydliadau, ni fydd brwdfrydedd gan unigolion yn unig yn ddigon. Rhaid edrych ar ymgysylltu â thadau fel busnes i bawb, gyda chefnogaeth ar gyfer y gwaith hwn ar bob lefel. Os nad yw hyn yn ei le, prin fydd y tadau fydd yn ymgysylltu a bydd 'gweithwyr tadau' blino ac yn gadael. Bydd hyn yn cadarnhau'r syniad fod ceisio ymgysylltu â thadau yn wastraff amser.

### Sut le yw sefydliad sy'n cefnogi tadau?

- Mae ganddo genhadaeth wedi'i dogfennu sy'n cynnwys gwasanaethu tadau.
- Mae'r bwrdd a'r rheolwyr yn ymroddedig i hyn ac yn myfyrio a hunan-fyfyrio yn barhaus.
- Mae ymdrechion o ddifrif yn cael eu gwneud i recriwtio a chadw gweithwyr a gwirfoddolwyr gwrywaidd.
- Mae ymgynghori rheolaidd yn digwydd gyda

thadau ac maen nhw'n cymryd rhan ar grwpiau rhieni a grwpiau ymgynghorol eraill.

- Mae llenyddiaeth a chyhoeddusrwydd am y sefydliad yn adlewyrchu'r ymrwymiad i wasanaethu tadau.
- Mae polisiau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i dadau gymryd rhan yn cael eu hadnabod a'u newid.
- Mae cyfranogiad tadau'n cael ei brif-ffrydio, nid ei gyfyngu i wasanaethau ar wahân fel grŵp tadau.

Gall teclyn hunan-asesu gwerthfawr, y Prawf Tadau (gweler Cymorth Pellach) eich helpu i gyflawni hun. Mae angen clymu gwasanaethau'n glir gyda chanlyniadau, wedi eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus ar gyfer tadau yn ogystal â mamau. Cafodd un prosiect yn Awstralia ei gynllunio i helpu unig famau oedd â phroblemau disgyblaeth, ond heb ystyried y gallai hyn hefyd fod yn un o brif anghenion unig dadau, neu hyd yn oed a oedd yna nifer sylweddol o unig dadau gerllaw.

Os ydych chi'n darparu rhaglen rianta brif-ffrwd sy'n honni ei bod wedi ei dylunio ar gyfer 'rhieni', fedrwch chi ddim cymryd yn ganiataol y bydd hyn o fudd i dadau i'r un graddau ag i famau. Bydd angen i chi fel arfer ail-ystyried y cynnwys, yr arddull a'r amcanion - er enghraifft mae nod o addysg rianta i dadau yn debyg o gynnwys tad a phlentyn yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd, lle efallai na fydd hynny'n nod ar gyfer y rhan fwyaf o famau.

Efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol a chyngor ar gynnal plant ar dadau, ac mae materion tai/budd-daliadau ar gyfer tadau'n debyg o fod yn wahanol iawn na materion ar gyfer mamau. Ac ni fedrwch gymryd yn ganiataol y bydd gwasanaethau y byddwch yn cyfeirio mamau atynt wedi eu harfogi i gwrdd ag anghenion tadau, neu bod gwasanaethau pwysig y gall fod eu hangen ar ddynion (er enghraifft rhaglenni cyflawnwyr ar gyfer dynion sy'n defnyddio trais) yn bodoli'n lleol o gwbl. Mae hi bron yn bendant y bydd angen i fonitro a gwerthuso newid hefyd, megis casglu a dadansoddi presenoldeb/bodlonrwydd rhieni yn ôl rhyw.

## Cam 4 – Canfod y tad(au)

Pwy yw'r tad? Mae'r term yn tueddu i gael ei ddefnyddio'n llac, yn cynnwys tadau biolegol a ffigurau tadol, sy'n aml yn cael eu trin o safbwynt

naill ai /neu. Er bod hyn yn ddefnyddiol mewn trafodaethau, ac wedi cael ei ddefnyddio yn y papur hwn, mae angen osgoi rhai rhagdybiaethau mewn lleoliadau ymarferol. Efallai na fydd gweithwyr yn gwybod ai'r gwryw sy'n cyd-fyw yw'r tad biolegol, neu os ydyn nhw'n gwybod nad ef yw'r tad, gallent gredu nad yw cysylltu â'r 'tad iawn' yn bwysig.

Mae pryderon ynghylch y prinder honedig o ddynion ym mywydau plant fel arfer yn deillio o'r syniad mai'r hyn sydd ar goll yw dylanwad gwryw

### Gwnewch hyn...

- casglu gwybodaeth fel mater o drefn am dadau a/neu ffigurau tadol boed yn byw gyda'r plentyn neu beidio
- gofyn, yn hytrach na thybio, am rolau'r tadau a'r ffigurau tadol ym mywydau plant
- sefydlu beth yw'r patrymau cyswllt a'r cyfraniad emosiynol, cyfreithiol ac ariannol tadau dibreswyl a ffigurau tadol ym mywyd y plentyn
- cynnwys y dynion hyn mewn trafodaethau am les y plentyn, ac mewn unrhyw waith therapiwtig (tra'n sicrhau diogelwch y plentyn a'r fam)
- os oes cynlluniau i weithio'n uniongyrchol gyda thadau, trafodwch bwrpas y gwaith hwn gydag aelodau o'r teulu.

neu fodel rôl yn hytrach na pherson penodol. Mewn gwirionedd, mae tadau biolegol yn llawer mwy na modelau rôl: maen nhw bob amser yn bwysig i blant hyd yn oed pan na fyddant erioed wedi cwrdd â'i gilydd achos mai nhw yw'r 'person arall wnaeth fy ngwneud i'. Mae llys-dadau a ffigurau tadol eraill hefyd yn bwysig.

Mae ceisio ymgysylltu â thadau dibreswyl yn achosi problemau arbennig. Gallai ymarferwyr bryderu am ddieithrio mamau. Ond mae ymchwil yn dangos, fodd bynnag, na fydd gan y rhan fwyaf o famau unrhyw broblem ynghylch siarad gyda thad eu plant, boed yn byw gyda'i gilydd neu beidio, dim ond i'r mater gael ei drin yn sensitif. Gall ymarferwyr hefyd wneud tybiaethau negyddol di-sail ynghylch y tad 'absennol'. Canfu un astudiaeth bod bydwagedd oedd yn delio â merched beichiog yn eu harddegau, wrth asesu gallu rianta'r tadau ifanc, yn dod i'r casgliad mai gwael fyddai'r gallu hyd yn oed os nad oeddent wedi cwrdd â'r tadau. Mae ymarferwyr sy'n mynd ar ôl tadau coll yn aml yn cael eu synnu o'r ochr orau. Gallai tadau hefyd fod yn cael eu cuddio

rhag gwasanaethau am resymau yn ymwneud â budd-daliadau a rhesymau eraill, a gall mamau fod yn hapus i'w datgelu unwaith y mae ofnau am ganlyniadau posibl yn cael eu tawelu.

### **Awgrymiadau am ymrwymadau i dadau (gan y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd)**

- Byddwn yn gofyn y cwestiwn 'ble mae'r tadau?' pan fyddwn ni'n gweld ystafell yn llawn o rieni benywaidd.
- Fyddwn ni ddim yn eich anwybyddu nac yn neidio arnoch a gweiddi 'Dyma wych! Tad!' pan fyddwch yn dod i mewn i'r ystafell.
- Byddwn yn dysgu eich enw ac yn ei ddefnyddio.
- Byddwn yn adeiladu perthynas gyda chi fel y byddem gyda mam eich plentyn, gan ddatblygu syniad graddol am eich cryfderau a'r heriau rydych chi'n eu hwynebu.
- Byddwn yn cyfeirio cyfathrebiadau ysgrifenedig a llafar atoch chi, yn ogystal ag at fam eich plentyn.
- Byddwn yn chwilio am eich cryfderau fel tad ac fel partner ac yn adnabod sut y gallwn ni gynnig cefnogaeth.

### **Astudiaeth achos 4**

Mae Protective Behaviours yn annog plant ac oedolion agored i niwed i adeiladu rhwydwaith o gefnogaeth a datblygu dealltwriaeth o'u hawliau a sut i fod yn ddiogel.

Roedd gan un tad ofal dros dri phlentyn dan ddeg oed yn dilyn chwalu ei berthynas gyda'u mam. Roedd ei defnydd hi o alcohol wedi arwain at drais. Bu'r plant yn rhan o dair sesiwn gyda Protective Behaviours a bu'r tad yn cymryd rhan mewn gwaith cefnogi rhianta i wella ei sgiliau rhianta a'i argaeledd emosiynol.

Gan ei fod yn eithriadol o swil wnaeth o ddim mynychu grŵp rhianta, ond aeth drwy'r sesiynau yn unigol gyda'i Lywiwr Teulu gan edrych ar yr holl faterion. Mae cyswllt wedi ailddechrau bellach ac mae'r teulu'n gweithio ar faterion fel cyllid, cael y plant i'r ysgol ac yn ôl a dodrefnu'r cartref teuluol. Mae'r ysgol yn adleisio'r holl bethau cadarnhaol ac mae'r plant yn gwneud yn dda ac wedi addasu i'w bywyd newydd gyda'u tad.

- Byddwn yn rhoi gwybod i chi ein bod yn teimlo'n gadarnhaol am ddyinion a'r cyfraniadau y maen nhw'n ei wneud i'w teuluoedd ac i gymdeithas.

### **Beth rydyn ni'n ei wybod am dadau dibreswyl**

Mae ymchwil gan Modern Fatherhood (Poole, et al 2013b) yn dangos nifer cynyddol o dadau sydd ddim yn byw gyda'u plant. Yn ôl eu ffigurau, mae cartrefi un rhiant wedi bod ar gynnydd ers 30 mlynedd ac mae mwyafrif helaeth y cartrefi (97%) yn rhai lle mai'r fam yw'r penteulu, gan olygu bod mwy a mwy o dadau'n byw i ffwrdd oddi wrth eu plant. Er mwyn deall sut i weithio gyda thadau dibreswyl mae'n ddefnyddiol gwybod ychydig mwy amdanyn nhw.

Mae'r amcangyfrif bod cymaint ag 17% o dadau sydd â phlant dibreswyl yn ystadegyn sy'n seiliedig ar dadau i blant dan 16 oed ac mae'n cyfateb i bron un miliwn o dadau yn y DU yn byw ar wahân i'w plant dibynnol. Mae mwyafrif y tadau hyn yn debygol o fod yn sengl ac mae llai na thraean ohonynt yn dadau i blant preswyl eraill.

Yn ôl Poole et al, mae'r tadau dibreswyl hyn yn tueddu i fod yn iau - mae tadau rhwng 16 a 24 oed yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fyw i ffwrdd oddi wrth eu plant na thadau sy'n 45 oed neu'n hyn. Maen nhw'n fwy tebygol o fod wedi byw i ffwrdd oddi wrth eu tadau eu hunain pan yn blant.

Ar wahân i oed a hanes teuluol, mae'r astudiaeth hefyd yn amlygu cysylltiadau rhwng statws preswyl tad a'i gefndir ethnig a'i sefyllfa economaidd. Mae tadau Du Caribiaidd a Du Affricanaidd yn cynnwys canrannau uwch o fod yn ddibreswyl gyda thadau o dde Asia y rhai mwyaf tebygol o fyw gyda'u plant. Mae tadau anghrefyddol hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddibreswyl.

Canfu'r ymchwil bod tadau dibreswyl yn fwy tebygol na thadau preswyl i fod â llai o gymwysterau, llai o ragolygon am swydd ac yn llai tebygol o fod yn berchen ar dy. Mae'r ffactorau hyn yn gysylltiedig â llai o hunan-barch a gwaeth lles corfforol ac emosiynol. Pan gollir yr ymdeimlad o bwrpas y gall dynion ei ennill drwy fod yn dad yn sgil gadael y cartref teuluol, gall y dadrymuso gymhlethu pethau ymhellach.

Mae lefel y cyswllt y mae tadau'n cael gyda'u plant yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau unigol a gall gael ei ganfod yn wahanol gan ddibynnu wrth bwy mae rhywun yn gofyn. Yn ôl yr ystadegau, gall tadau dibreswyl

hawlio eu bod yn cael lefelau uwch o gyswllt na'r hyn sy'n cael ei adrodd gan fam breswyl eu plentyn. Mae Poole et al yn datgelu bod 60% o dadau dibreswyl yn dweud eu bod yn gweld eu plant o leiaf unwaith yr wythnos, a dim ond 13% sy'n dweud nad ydynt yn cael unrhyw gyswllt, er bod y ffigur hwn yn ymddangos yn gostwng.

Gan edrych yn fanylach, mae'r ymchwil yn dangos cysylltiad rhwng sefydlogrwydd ariannol a'r posibilrwydd o gyswllt. Gall cartrefi mwy gyda stafelloedd sbâr gynnig gwell cyfleoedd i blant aros gyda thadau dibreswyl, ac felly gall diogelwch ariannol a diogelwch perthnasol i dai fod yn ffactor o ran lefelau cyswllt.

Mae'r astudiaeth hefyd yn dangos cysylltiad diddorol rhwng cyswllt a chyfraniadau ariannol. I ryw raddau, po amlaf y mae tad yn gweld ei blant dibreswyl, y mwyaf y mae'n tueddu i'w gynnig o ran cefnogaeth ariannol. Ar ryw bwynt, fodd bynnag, mae'r ddau ymddygiad yn ymrannu, fel petai cyfraniadau ariannol yn cael eu disodli gan rannu gweithgareddau a dyletswyddau gofalu.

Efallai mai'r wers bwysicaf o'r astudiaeth hon yw mai tadau sydd â'r lefelau cyswllt uchaf gyda'u plant dibreswyl sydd hefyd yn teimlo agosaf atynt. Tadau sy'n gweld eu plant o leiaf unwaith yr wythnos sy'n fwyaf tebygol o ddisgrifio eu perthynas fel un 'agos iawn' (Poole et al 2013b).

### **Beth am rianta ar y cyd?**

Wrth weithio gyda thadau sydd wedi gwahanu oddi wrth famau eu plant, mae'n bwysig deall y gwahanol amrywiadau o 'rianta ar y cyd' a beth yw ystyr hynny mewn gwirionedd. Gall gwybod sut i ymgysylltu â thadau sydd wedi gwahanol helpu i gefnogi trefniant rianta ar y cyd mwy cynhwysol gyda phlant yn cael mynediad llaw i'r amrediad gofal cyfan y gall eu rhieni ei gynnig.

Yn 'What is Shared Parenting?' mae'r elusen Families Need Fathers yn disgrifio rhianta ar y cyd fel trefniant tymor hir sy'n cael ei adolygu a'i addasu drwy gydol plentyndod i gwrdd ag anghenion y plentyn. Yn unol â'u hamcanion, dylai plant deimlo fod y ddau riant yn cyfranogi'n iawn heb fod gan y naill na'r llall fwy o awdurdod moesol. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio gyda phob riant yn gytbwys, er mwyn i'r ddau allu rhannu yn y drefn o ddydd i ddydd yn ogystal ag amser hamdden. Pan nad yw unrhyw riant yn cael ei gau allan o unrhyw un maes o fywyd y plentyn, neu i'r gwrthwyneb, lle nad yw un riant yn cael y cyfrifoldeb llawn am unrhyw un agwedd, mae'r plentyn yn fwy tebygol o weld y ddau riant

yn gyfartal heb ddatblygu syniadau stereoteip, er enghraifft gweld mamau fel gofalwyr a thadau fel cymwynaswyr ariannol.

### **Cyfle aur y blynyddoedd cynnar**

Mae erthygl gan y Fatherhood Institute, Engaging Fathers in their Children's Learning, (Burgess, 2005), yn nodi bod cyfle aur yn bodoli i ymgysylltu â thadau wedi gwahanu yn ystod y blynyddoedd cynnar. Dyma'r cyfnod pan fydd gan rieni'r cyfranogiad mwyaf ym mywydau eu plant. Mae gofal o ddydd i ddydd a rhyngweithio agos ar lefel yn ystod y blynyddoedd cynnar sy'n annhebygol o ddigwydd eto. Gall lleoliadau blynyddoedd cynnar felly weld canlyniadau arbennig o dda wrth wneud gwasanaethau a chyhoeddusrwydd mor gyfeillgar i dadau â phosibl.

Rheswm arall sy'n cael ei roi gan Burgess (2005) dros y ffaith ei bod hi'n haws ymgysylltu â thadau wedi gwahanu yn ystod y blynyddoedd cynnar yw'r ysfa naturiol i adeiladu perthynas gadarn gyda'u plant. Maen nhw ar drobwynt sy'n gallu penderfynu dyfodol eu rôl rianta a sefydlu natur a lefel eu cyfranogiad.

Yn ôl Burgess, mae tadau ar y pwynt yma'n debygol o fod yn awyddus i ymgysylltu â datblygiad cymdeithasol ac addysgiadol eu plant, hyd yn oed os nad oedd eu profiad nhw o addysg yn un cadarnhaol. Fel y gwelwyd eisoes, mae cariad tadau tuag at eu plant yn ffactor yr un mor symbylol â chariad mamau. Os oes ganddyn nhw fylchau addysgiadol megis llythrennedd neu rifedd, mae modd mynd i'r afael â'r rhain drwy gysylltu gweithgareddau gyda'r manteision posibl i'w plant. Mae tadau am i'w plant ddysgu a llwyddo, ac maen nhw am iddyn nhw gael profiadau gwell na'u profiadau nhw eu hunain.

## **Cam 5 – Cynnal yr ymgysylltiad**

Er mwyn denu tadau'n gyson, bydd rhaid i'r gwasanaeth gael delwedd gyhoeddus gadarn a chael ei adnabod gan partneriaid cymunedol, gan gyfryngau lleol a gan dadau lleol fel adnodd da ar gyfer tadau. Unwaith y bydd hyn yn digwydd mae 'popeth fel caseg eira' meddai un gweithiwr, 'a dydy'r ffôn byth yn stopio canu'.

Y rheol aur wrth recriwtio tadau yw mynd i ble mae'r tadau, boed hynny'n golygu anfon gweithwyr ymgysylltu allan, neu hysbysebu gyda thafleuni.



## Fel sefydliad, gwnewch y canlynol:

- rhoi hysbysebion/erthyglau hyrwyddo rheolaidd yn y cyfryngau lleol: mae bod yn dad yn gwneud 'stori dda' a byddant yn falch i glywed gennyh
- gwneud yn siŵr fod gwasanaethau lleol sy'n ymgysylltu â dynion (er enghraifft gwasanaethau ieuencid, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, prosiectau digartrefedd, cyflogaeth a hyfforddiant) yn gwybod pa mor gynhwysol o dadau yw eich sefydliad a'i wasanaethau, ac annog y sefydliadau hynny i adnabod y tadau ymysg eu cleientiaid
- gwneud yn siŵr fod sefydliadau sy'n gweithio gyda menywod (yn cynnwys beichiogrwydd yn yr ardegau, mamau a phlant) yn gwybod pa mor gynhwysol o dadau yw eich sefydliad a'i wasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill i'w helpu i ddatblygu ymagweddau cynhwysol i dadau
- adnabod y bydd rhai dynion yn cysylltu â chi pan fyddant mewn argyfwng (felly byddwch â'r gefnogaeth briodol yn ei lle) ac mae rhai'n teimlo'n fwy hyderus os gallant 'ddod â ffrind gyda nhw'
- monitro a gwerthuso eich gwaith er mwyn gallu arddangos llwyddiant yn ymgysylltu â thadau ac yna rhoi cyhoeddusrwydd i'r llwyddiant

## Pan yn cysylltu gyda thad, cofiwch ...

- sicrhau eich bod yn dychwelyd galwadau ffôn yn brydlon
- mynd i'r afael â phryderon neu gwestiynau cychwynnol gydag esboniad syml o beth mae'ch gwasanaeth yn ei ddarparu a beth gall tadau ei ddisgwyl
- darparu amryw o opsiynau
- bod yn ddiffuant yn yr hyn rydych yn ei ddweud: bydd yn lleihau amheuan
- dilyn i fyny pan fydd ymgysylltiad yn gwanhau (neges destun, ffonio, e-bostio – beth bynnag sy'n gweithio)
- cael manylion cyswllt rhywun fydd bob amser yn gwybod ble mae'r tad, rhag ofn iddo symud neu newid ei rif ffôn
- cymryd y 'Prawf Tadau' (gweler Cymorth Pellach)

Mae tadau mewn dosbarthiadau cyn-geni ac ar wardiau geni, yn gollwng eu plant yn y feithrinfa neu'r ysgol ac yn eu casglu gan y gwarchodwr plant.

Maen nhw mewn gweithleoedd lleol neu'n mynychu gwasanaethau cyflogaeth, hyfforddiant neu Addysg Bellach. Maen nhw'n mynd i ganolfannau cyswllt ac at wasanaethau prawf, yn ymwneud â chyfreithwyr, cyngor ar bopeth, gwasanaethau cefnogi plant a budd-daliadau, defnyddio cyfleusterau chwaraeon lleol ac yn byw mewn hosteli a charcharau lleol.

Mae mentrau rhianta sydd wedi cydweithio gyda sefydliadau allanol wedi bod yn llwyddiannus i gynhyrchu cyfeiriadau tadau drwy osod gweithwyr ymgysylltu mewn lleoliadau allweddol fel meddygfeydd ac ysgolion ar yr adegau prysuraf, arddangos taflenni a phosteri a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae ymagwedd mwy rhagweithiol fyth yn gweld gweithwyr datblygu cymunedol yn mynd allan i leoliadau sy'n gyfeillgar i dadau a mynd at dadau'n uniongyrchol.

Yn bwysicaf oll, mae'r plant sydd wedi eu cofrestru gyda'ch gwasanaethau bron bob amser yn adnabod eu tadau a'r ffordd symlaf yw eu gwahodd gyda gwahoddiad personol. Llwyddodd un tîm ymwelwyr iechyd i gynyddu'r nifer o dadau oedd yn mynychu'r ymweliadau cartref 400% gyda'r cam syml o gyfeirio'r llythyr 'Annwyl Mam a Dad' yn hytrach nag 'Annwyl Rieni', a gwneud y pwynt fod y gwasanaeth yn gobeithio gweld y ddau ohonyn nhw. Bydd y rhan fwyaf o famau'n hapus i roi manylion y tad i chi er mwyn i chi allu cysylltu â nhw hyd yn oed pan fydd dad yn byw rhywle arall.

Wrth baratoi deunyddiau i'w roi i dadau, ystyriwch fod brandio priodol yn mynd y tu hwnt i ddelweddau cyfeillgar i dadau. Dylech osgoi brawddegau biwrocraidaidd fel 'cyfeiriadau am gefnogaeth' a dewis rhywbeth mwy agos atoch fel 'cynnig am help'. Cysylltwch eich cynnig gyda'r manteision potensial i'r plant, nid i'r tadau eu hunain. Cofiwch gynnwys fanylion cyswllt eich gwasanaeth er mwyn i dadau allu ymuno'n uniongyrchol.

Mae'r posibiladau ar gyfer recriwtio tadau yn ddiiddiwedd. Gan ddefnyddio'r model 'gwaith cymdeithasol datgysylltiedig', mae rhai prosiectau sy'n targedu tadau ifanc wedi gosod gweithwyr allweddol o fewn tai yn y gymuned. Mae eraill yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd i dargedu darpar dadau, gyda 'bagiau rhodd tadau' neu gyrsiau cyn-geni fel Hit the Ground Crawling

Fe nododd prosiect arall ddynion mewn practis Meddyg Teulu oedd yn gwneud apwyntiadau ond yn methu cadw atynt: roedd llawer o'r rhain yn dadau wedi gwahanu, gyda'r gwahanu hynny oddi wrth eu plant yn fater allweddol iddynt.

### Cofiwch ...

- ddefnyddio tadau sydd wedi cwblhau eich rhaglen i recriwtio tadau eraill
- sicrhau bod gweithwyr allanol yn ei gwneud hi'n glir eu bod am ymgysylltu â'r ddau riant, ac amserlennu ymweliadau i siwtio'r ddau
- dosbarthu a chario taflenni fel rhywbeth wrth gefn, ond peidiwch â disgwyl iddyn nhw wneud y gwaith drosoch chi
- pwysu ar bartneriaid a phlant i gael tadau i gymryd rhan (gall gwahoddiadau gan blant at eu tadau fod yn llwyddiannus iawn)
- bod yn amyneddgar - dyfalbarhau
- dychmygu'n fwriadol ddyfodol cadarnhaol ar gyfer pob tad

### Astudiaeth achos 5

#### Pwysigrwydd cyfranogiad mewn grwpiau cyn rianta ar gyfer tadau

"Yn ddiweddar rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y tadau sydd wedi cael eu 'cyfeirio' neu eu 'hargymell' i fynychu grŵp rhianta. Yn ein profiad lleol ni mae wedi bod yn werthfawr dros ben i dreulio amser yn gwneud yn siŵr fod pob tad yn cael cysylltiad personol dros y ffôn. Mae'r cyswllt hwn yn cynnig cyfle i drafod yn agored unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw ac mae'n rhoi eglurder ynghylch yr ymrwymiad i fynychu grŵp rhianta. Pan mae hi'n bosibl mae tadau hefyd yn cael dewis i fynychu gyda'u partner neu i ddod i grŵp ar gyfer tadau'n unig. Rwy'n teimlo fod gwerth y cysylltiad hwn cyn y grŵp wedi cael ei brofi pan gwblhaodd 8 tad (100%) ein grŵp rhianta diwethaf ar gyfer tadau'n unig."

Tracy Mansbridge  
Cydlynnydd Rhianta Grŵp Rhianta Solihull

## Cymorth pellach

### The 'Think Fathers' Network

<http://www.fatherhoodinstitute.org/2009/we-need-you-as-think-fathers-champions/>  
Rhwydwaith rhydd o asiantaethau ac unigolion sy'n ymroddedig i greu newid diwylliannol er mwyn cefnogi perthynas tadau a phlant. Gall Pleidwyr Tadau gymryd y Prawf Tadau yn rhad ac am ddim, sef teclyn hunan asesu a ddatblygwyd gan DCSF gyda'r Fatherhood Institute, i'w helpu i ystyried pa mor effeithiol yw'r ymgysylltiad; ac i nodi newidiadau y gallant ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn systematig ac yn effeithiol. Y prif elfennau mae'r Prawf Tadau'n helpu i'w hadolygu yw: arweinyddiaeth, tîm, amgylchedd, cyfathrebu, recriwtio tadau, perthynas tad a phlentyn. Mae'r Fatherhood Institute yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chyhoeddiadau i helpu asiantau ac unigolion i gwrdd ag anghenion y Prawf Tadau:  
[www.fatherhoodinstitute.org](http://www.fatherhoodinstitute.org)

## Hyfforddiant ac ymgynghori

### The Fatherhood Institute

[www.fatherhoodinstitute.org](http://www.fatherhoodinstitute.org)  
Ffôn: 0845 6341328 (llinell gymorth am ddim i ddarparwyr gwasanaethau)  
[mail@fatherhoodinstitute.org](mailto:mail@fatherhoodinstitute.org)

### Working with Men

[www.workingwithmen.org/](http://www.workingwithmen.org/)  
Ffôn: 020 7237 5353  
[info@workingwithmen.org](mailto:info@workingwithmen.org)

### Fathers Plus

<http://www.fathersplus.org/>  
Ffôn 0191 2727824

## Darllen pellach/ cyfeiriadau

### Lawrlwythwch y Prawf Tadau

<http://www.fatherhoodinstitute.org/wp-content/uploads/2009/06/Dad-Test-Guide.pdf>

(gweler <http://www.fatherhoodinstitute.org/hit-the-ground-crawling>).

### **Pecyn cymorth ar gyfer Ymarfer sy'n cynnwys tadau**

<http://www.fatherhoodinstitute.org/2007/toolkit-for-father-inclusive-practice/>

### **What is shared parenting?**

<http://www.fnf.org.uk/law-and-information/what-is-shared-parenting?qa=132#qa132>

### **Fathers and Parenting Interventions: what works?**

<http://www.fatherhoodinstitute.org/2009/fathers-and-parenting-interventions-what-works/>  
What Good are Dads? (2001): <http://www.fatherhoodinstitute.org/2008/what-good-are-dads/>

## **Darllen pellach**

Adesso, V. J. & Lipson, J. W. (1981) 'Group Training of Parents as Therapists for Their Children.' *Behavior Therapy*, 12, 625-633.

Burgess, A. (2005) *Engaging Fathers in Their Children's Learning: tips for practitioners*.  
Llundain, Fatherhood Institute

Burgess, A. (2009). *Father and Parenting Interventions – what works?*  
Llundain: Fatherhood Institute.

Daniel B & Taylor J (2001) *Engaging with Fathers: practice issues for health and social care*.  
Llundain: Jessica Kingsley

Fagan J & Palm G (2004) *Fathers and Early Childhood Programs*.  
Delmare Learning

Featherstone B et al (2007) *Working with Men in Health and Social Care*.  
Llundain: Sage

Ferguson H & Hogan F (2004) *Strengthening Families through Fathers: developing policy and practice in relation to vulnerable fathers and their families*.  
Dulun: Yr Adran Materion Cymdeithasol a Theuluol

Ghate D et al (2000) *Fathers and Family Centres: engaging fathers in preventive services*.  
Llundain: Policy Research Bureau  
Hetherington EM & Kelly J (2002) *For better or for worse: divorce reconsidered*.  
Efrog Newydd: Norton

Levine J A (1993) *Getting Men Involved: strategies for early childhood programmes*.  
Efrog Newydd: Scholastic

Lloyd T (2001) *What Works with Fathers?*  
Llundain: Working with Men

O'Brien M (2004) *Shared Caring: bringing fathers into the frame. EOC Working Paper Series*.  
Manceinion: Comisiwn Cyfle Cyfartal

Poole, E, et al (2013a). *Fathers' involvement with children*  
<http://www.modernfatherhood.org/wp-content/uploads/2013/04/Fathers-involvement-with-children1.pdf>

Poole, E, et al (2013b). *What do we know about non-resident fathers?*  
<http://www.modernfatherhood.org/wp-content/uploads/2013/11/Briefing-paper-Non-resident-fathers.pdf>

Ryan M (2000) *Working with Fathers*  
Abingdon: Radcliffe Medical Press

## **Ynglŷn papur hwn**

Yn seiliedig ar bapur gafodd ei ysgrifennu'n wreiddiol a'i ddiwygio gan Adrienne Burgess, Cyfarwyddwr Ymchwil yn y Fatherhood Institute. Mae Adrienne wedi ysgrifennu'n eang ar dadolaeth a pherthynas cyplau. Mae'n un o sefydlwyr y Fatherhood Institute, ac mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o ymchwil ac o ymarfer. Roedd ei llyfr *Fatherhood Reclaimed: the making of the modern father* (Vermilion, 1997) yn gyfrwng i osod agenda newydd ar dadolaeth yn y DU, ac mae wedi cael ei gyhoeddi ar draws y byd.

Cafodd y papur hwn ei ariannu'n wreiddiol gan yr Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd a'i ddiweddarau ar gyfer y prosiect Dyfodol Gwell, wedi'i ariannu gan y Loteri Fawr.